Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
Datganiad i'r Wasg
I'w ryddhau ar unwaith
02920 491818 | 07815 071164
www.neu.org.uk
www.Facebook.com/nationaleducationunion
www.Twitter.com/@NEUnion

9fed Tachwedd 2019

Mae angen cyllido ysgolion Cymru yn iawn

Mae undeb addysg fwyaf Cymru wedi galw ar swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyhoeddi cynigion ar gyfer cywiro'r niwed a achoswyd i Gymru, ei gwasanaethau cyhoeddus ac addysg yn benodol o ganlyniad i raglen lymder y Ceidwadwyr. Fodd bynnag, mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol hefyd yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i sicrhau'r swm mwyaf a dderbynnir o'r grant bloc ar gyfer addysg.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

"Mae llymder gan Lywodraeth y DU wedi cael effaith enfawr ar ysgolion yng Nghymru. Ers i'r llymder ddechrau, ni ddaru cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ymladd o gwbl am gyllid digonol i Gymru yn gyffredinol ac yn enwedig ar gyfer addysg.

"Byddwn yn ceisio cwrdd â'r Gweinidogion Cyllid ac Addysg i drafod materion llymder er mwyn sicrhau bod ysgolion Cymru yn cael eu hariannu'n ddigonol a bod y difrod a achosir trwy doriadau San Steffan yn cael ei wrthdroi."

GORFFEN

Roedd testun y cynnig i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

Cynnig 6. Ariannu Ysgolion Cymru

Mae Cynhadledd Cymru yn nodi, ers 2015, mae oddeutu 942 o ysgolion yng Nghymru wedi cael toriadau yn eu cyllid gan arwain at ostyngiad yn nifer y staff, adnoddau annigonol, dosbarthiadau mwy o faint ac adeiladau ysgolion sy'n dadfeilio.

Mae Cynhadledd Cymru yn derbyn mai Llywodraeth San Steffan sy'n gyfrifol am ariannu Llywodraeth Cymru ac, yn y pen draw, yr ysgolion a gynhelir yng Nghymru, gyda'r grant bloc yn cael ei dalu i Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gychwyn, a bo yntau wedyn yn trosglwyddo balans i Lywodraeth Cymru sy'n cael ei gosod yng Nghronfa Gyfunol Cymru. Yn gyson dangoswyd bod yr arian a drosglwyddwyd yn annigonol tra bod y Ceidwadwyr yn San Steffan yn parhau i hyrwyddo eu rhaglen llymder anffodus heb fawr o sylw i'r difrod a achosir i ddarpariaeth addysg yng Nghymru.

Trwy gydol y cyfnod ers i'r Torïaid ddod i rym yn 2010 mae Cynhadledd Cymru yn nodi ymhellach fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi methu bob blwyddyn i ymladd am gyllid digonol i Gymru yn gyffredinol a dros addysg yn y pen draw.

Fodd bynnag, mae Cynhadledd Cymru hefyd yn nodi bod gan Lywodraeth Cymru ym Mae Caerdydd hefyd gyfrifoldeb i sicrhau'r swm mwyaf a dderbynnir o'r grant bloc ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Cynhadledd Cymru yn cymeradwyo ymgyrch Toriadau i Ysgolion Cymru sydd wedi codi ymwybyddiaeth o'r difrod sy'n cael ei achosi ymhlith aelodau, llywodraethwyr, rhieni, cynghorwyr a gwleidyddion yn y Senedd a San Steffan ac yn annog yr NEU i ddatblygu'r ymgyrch trwy:

1. Alw ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyhoeddi cynigion ar gyfer cywiro'r niwed a achoswyd i Gymru, ei gwasanaethau cyhoeddus ac addysg yn benodol o ganlyniad i'r rhaglen lymder dywededig.

2. Alw ar Weinidog Cyllid Cymru i gyhoeddi a gweithredu cynigion ar gyfer datblygu'r setliad cyllid datganoledig a'r polisi Datganiad Cyllid i sicrhau bod ysgolion Cymru yn cael eu hariannu'n ddigonol a bo'r difrod a achosir trwy doriadau San Steffan yn cael ei gwrthdroi.

3. Alw ar Weinidog Addysg Cymru i gyhoeddi cynigion a fydd yn sicrhau bod ysgolion ledled Cymru yn cael eu hariannu'n ddigonol ac sy'n dod â anghysondebau yn y fformiwla ariannu sydd wedi cael effaith andwyol ar lawer o ysgolion mewn gwahanol rannau o'r wlad.

4. Barhau i weithio gydag undebau eraill sy'n ymwneud ag ymgyrch Toriadau i Ysgolion Cymru nes bod y mater hwn wedi'i ddatrys yn foddhaol.

Diwygiad

i.) Mewnosod rhif 4 newydd (isod) a'i ail-rifo:

4. Galw ar Lywodraeth Cymru i ariannu yn llawn unrhyw godiadau statudol mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Phensiynau yn y dyfodol. Mae'r rhain y tu allan i reolaeth ysgolion ac felly yn lleihau'r arian cyflawnedig sydd ar gael i bob disgybl. Ni ddylai hyn fod yn rhan o unrhyw "gynnydd" mewn gwariant a ddatganwyd gan nad yw'n cynyddu'r arian sydd ar gael i ysgolion.

Cysylltiadau'r wasg:

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.

e-bost: stuart.williams@neu.org.uk

Nodyn i olygyddion:

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.